------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Tachwedd 2019

Amser: 09.25


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru


**Rhag-gyfarfod preifat**

(09.25-09.30)

## Preifat 09.30-10.30

## 1 Briffio ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Llywodraeth Cymru 2020-2040

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 36)

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio, Llywodraeth Cymru

Jonni Tomos, Uwch Reolwr Cynllunio, Llywodraeth Cymru

Gareth Hall, Uwch Reolwr Cynllunio, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-19(P1) EIS Papur Brifio Crafu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

EIS(5)-30-19(P2) Papur briffio cyffredinol gan Ymchwil y Senedd

**Egwyl**

(10.30-10.45)

**Cyhoeddus 10.45-12.50**

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.45)

## 3 Papurau i'w nodi

(10.45)

### 3.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Trafnidiaeth Cymru ynghylch cerbydau

(Tudalennau 37 - 38)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-19(P3) Llythyr gan y Cadeirydd at Trafnidiaeth Cymru ynghylch cerbydau

## 4 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft i Gymru ar gyfer 2020-2040 - Trafnidiaeth

(10.45-11.45)

Ellen Jones, Uwch Swyddog Polisi, Sustrans Cymru

Mark Simmonds, Pennaeth Polisi a Materion Allanol, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

**Egwyl**

(11.45-11.50)

## 5 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft i Gymru ar gyfer 2020-2040 - Comisiwn UK2070

(11.50-12.50) (Tudalennau 39 - 50)

Yr Athro Vincent Goodstadt, Comisiynydd UK2070

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-19(P4) Tystiolaeth gan Yr Athro Goodstadt (Saesneg yn unig)

EIS(5)-30-19(P4A) Tystiolaeth bellach gan Yr Athro Goodstadt (Saesneg yn unig)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 7.

## 7 Papur Cwmpasu: Gradd-brentisiaethau

(12.50-13.05) (Tudalennau 51 - 56)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-30-19(P5) Papur Cwmpasu: Gradd-brentisiaethau (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
## Briff Ymchwil

Hydref 2019




www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Tudalen y pecyn 18

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6328**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
## Briff Ymchwil

Hydref 2019

**Awdur:**
Elfyn Henderson

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **1**

**Y cefndir** .......... **2**

Pwrpas y Fframwaith .......... 2

Datblygu'r Fframwaith .......... 3

**Y dewis a ffafrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** .......... **5**

Gweledigaeth ac amcanion .......... 5

Y dewis a ffafrir .......... 6

**Gwaith craffu'r pwyllgor ar yr dewis a ffafrir** .......... **9**

**Fframwaith drafft** .......... **12**

Dogfen Fframwaith drafft .......... 12

Pennod 3 – Canlyniadau'r Fframwaith .......... 13

Pennod 4 - Strategaeth Ofodol (polisïau 1-15) .......... 14

Pennod 5 - Y rhanbarthau (polisïau 16-33) .......... 25

Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig .......... 31

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd .......... 33

Tudalen y pecyn 19

**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddrafft cyntaf ei ***Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru.*** Mae'r Fframwaith yn ofyniad statudol a bydd yn nodi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'i blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio. Disgwylir i'r Fframwaith terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020.

Dechreuodd y broses o ddatblygu'r Fframwaith yn 2016 ac mae'n cynnwys nifer o gamau allweddol. Nod y briff hwn yw crynhoi digwyddiadau hyd yma drwy ddarparu trosolwg o'r:

- broses ar gyfer datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
- y dewis a ffafrir o ran y Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018;
- gwaith craffu gan un o Bwyllgorau'r Cynulliad ar y dewis a ffafrir; a'r
- Fframwaith drafft, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019.

# Y cefndir

Cyflwynodd ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** ddwy lefel newydd o gynllun datblygu, a fydd uwchlaw'r ***Cynlluniau Datblygu Lleol*** presennol:

- Fframwaith sy'n cwmpasu Cymru gyfan; a hefyd
- **Cynlluniau Datblygu Strategol** sy'n cwmpasu rhanbarthau penodol.

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol. Bydd y Fframwaith yn nodi fframwaith defnydd tir dros gyfnod o 20 mlynedd ac yn cael ei adolygu o leiaf bob pum mlynedd.

Yn wahanol i'w ragflaenydd, **Cynllun Gofodol Cymru**, bydd gan y Fframwaith statws cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r Fframwaith a bod yn rhaid i bob Cynllun Datblygu Strategol a Cynllun Datblygu Lleol gydymffurfio ag ef.



Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn gynlluniau rhanbarthol a fydd yn bodoli rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol mewn rhai rhannau o Gymru, a byddant yn ymdrin â materion sy'n torri ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol (ond nad ydynt o arwyddocâd cenedlaethol). Ar hyn o bryd nid oes dyletswydd statudol i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Fodd bynnag, mae dogfen ddrafft y Fframwaith, a drafodir yn ddiweddarach yn y papur briffio hwn, yn cynnwys polisi sy'n 'ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol'.

## Pwrpas y Fframwaith

Ar ddechrau'r broses, nododd Llywodraeth Cymru bwrpas y Fframwaith fel:

- nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut gall y system gynllunio gyflawni hyn;
- rhoi cyfarwyddyd i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- cefnogi penderfyniadau ynghylch ceisiadau o dan y drefn **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;**





- ategu strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir cyflawni'r rhain drwy'r system gynllunio; a
- bodoli ochr yn ochr â **Pholisi Cynllunio Cymru,** sy'n disgrifio polisïau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i bennu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir.

Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ym mis Rhagfyr 2018, ar ôl cael ei ddiwygio i ystyried *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

## Datblygu'r Fframwaith

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith yn 2016, gyda disgwyl ar hyn o bryd i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cyhoeddi llinell amser** yn dangos y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig â datblygu'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys:

- casglu tystiolaeth ac ymgymryd â gwaith ymgysylltu i ddatblygu gweledigaeth, amcanion a dewisiadau ar gyfer y Fframwaith (Hydref 2016 - Mawrth 2018);
- cyhoeddi ac ymgynghori ar faterion, dewisiadau a'r dewis a ffafrir o ran y Fframwaith, gyda chymorth asesiadau ac adroddiadau amgylcheddol (Ebrill 2018 – Gorffennaf 2018);
- trafod ymatebion i'r ymgynghoriad ar y dewis a ffafrir a pharatoi'r Fframwaith drafft (Gorffennaf 2018 - Awst 2019);
- ymgynghori ar y Fframwaith drafft, trafod ymatebion a pharatoi adroddiad ymgynghori (Awst 2019 - Mawrth 2020);
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod y Fframwaith drafft (Ebrill - Mehefin 2020); ac wedyn
- cyhoeddi'r Fframwaith terfynol (Medi 2020).

Mae'r Ddeddf Gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad drafod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft cyn cyhoeddi'r Fframwaith terfynol. Bydd gan y Cynulliad 60 diwrnod eistedd i'w ystyried. Fel y nodwyd yn y llinell amser uchod, mae disgwyl i'r Cynulliad drafod y Fframwaith drafft rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried penderfyniadau neu argymhellion a wneir gan y Cynulliad, neu unrhyw un o'i bwyllgorau, wrth benderfynu a ddylid diwygio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ai peidio. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol terfynol yn nodi sut mae wedi ystyried penderfyniadau neu argymhellion y Cynulliad.

Craffodd **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** y Cynulliad ar y dewis a ffafrir o ran y Fframwaith ym mis Mehefin 2018. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn nes ymlaen yn y papur briffio hwn.





**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

# Y dewis a ffafrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y **dewis a ffafrir o ran y Fframwaith** rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2018.

Ni chyflwynodd y **ddogfen ymgynghori ar y dewis a ffafrir** (PDF, 4MB) fersiwn ddrafft o'r Fframwaith, ond yn hytrach nododd weledigaeth, amcanion a'r dewis a ffafrir i ddarparu'r sylfaen ar gyfer datblygu'r Fframwaith drafft.

Ni amlinellwyd manylion y polisïau y bydd y Fframwaith yn eu pennu ar gyfer pob rhan o Gymru ar yr adeg hon. Fodd bynnag, nodwyd cyfres o faterion gofodol o bwys cenedlaethol yn y dewis a ffafrir a'r cyfeiriad posibl ar gyfer nifer o feysydd polisi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad.

## Gweledigaeth ac amcanion

Yn y ddogfen ymgynghori ar y dewis a ffafrir, nodir gweledigaeth Llywodraeth Cymru ynghylch 'Lleoedd Cynaliadwy':

> Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system cynllunio defnydd tir. Bydd y Fframwaith yn helpu i sicrhau lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi dulliau cadarnhaol o greu lleoedd a sicrhau bod ein dewisiadau gofodol yn cyfeirio datblygiad i'r lleoedd iawn, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn creu ac yn cynnal cymunedau hygyrch ac iach, yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn cefnogi ffyniant i bawb.

Yn ogystal, nodir pedwar nod o fewn y weledigaeth:

- lleoedd unigryw a naturiol;
- lleoedd cynhyrchiol a mentrus;
- lleoedd egnïol a chymdeithasol; a
- rhanbarthau ffyniannus, nodedig ac amrywiol.

Yn ogystal, nodwyd 27 o amcanion y Fframwaith yn y ddogfen ymgynghori ar y dewis a ffafrir. Gellir gweld yr amcanion a'r sail dystiolaeth ar eu cyfer yn **Atodiad A – Materion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** (PDF 17MB) sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori.

## Y dewis a ffafrir

Yn y dewis a ffafrir gan Lywodraeth Cymru, amlinellir y 'fframwaith gofodol ar gyfer datblygu'r Fframwaith', ac mae'n cynnwys pum thema, gyda'r pedair thema gyntaf yn adlewyrchu strwythur y fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru:

- creu lleoedd;
- lleoedd unigryw a naturiol;
- lleoedd cynhyrchiol a mentrus;
- lleoedd egnïol a chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

### Creu Lleoedd

Mae'r cysyniad o 'greu lleoedd' wrth wraidd ymagwedd newydd Llywodraeth Cymru at bolisi cynllunio, ac mae'n un o brif nodweddion y dewis a ffafrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn disgrifio creu lleoedd fel proses gynhwysol, sy'n cynnwys pawb sydd â buddiant yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae'n ystyried materion ar bob lefel, o'r raddfa fyd-eang, fel y newid yn yr hinsawdd, i'r raddfa leol, fel effaith amwynderau ar gymdogion.



Noda'r dewis a ffafrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol mai'r thema creu lleoedd 'yw'r egwyddor gyntaf a ddefnyddir i ystyried dewisiadau gofodol. Rhaid i benderfyniadau i gefnogi themâu eraill ddangos yn gyntaf eu bod yn gydnaws â'r thema creu lleoedd'.

Mae'r dewis a ffafrir yn canolbwyntio ar dair agwedd ar greu lleoedd:

- datgarboneiddio a newid hinsawdd;
- iechyd a llesiant; a
- chymunedau cydlynus a'r Gymraeg.

Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi **blog ar greu lleoedd** a thrafododd y Cynulliad **rôl y system gynllunio o ran creu lleoedd** ym mis Mai 2018.





### Lleoedd unigryw a naturiol

O dan y thema hon, dywedir yn y ddogfen ymgynghori y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi adnoddau naturiol cenedlaethol, ardaloedd o risg amgylcheddol, a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol. Dywed hefyd y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn nodi cyfleoedd ar gyfer ehangu'r ardaloedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol, cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd newydd a 'datblygiad diwylliannol cenedlaethol' newydd.

### Lleoedd cynhyrchiol a mentrus

O dan y thema hon, dywedir yn y dewis a ffafrir y bydd y Fframwaith yn nodi lleoliadau lle bydd nifer o bolisïau yn cael eu gweithredu. Er nad aeth y dewis a ffafrir mor bell â nodi lleoedd penodol, amlinellodd y bydd y Fframwaith yn nodi:

- lleoliadau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd ar raddfa genedlaethol a fframwaith ar gyfer sefydlu cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned;
- ardaloedd pwysig o ran cyflogaeth, adfywio, mwynau a gwastraff, lleoliadau presennol a newydd ar gyfer sectorau twf economaidd strategol (gan gynnwys y sectorau sylfaen, sy'n cynnwys gofal, twristiaeth, bwyd a manwerthu);
- polisïau i hyrwyddo datblygiad economaidd trawsffiniol gyda rhanbarthau cyfagos yn Lloegr; a
- seilwaith digidol a thrafnidiaeth pwysig.

Yn ogystal, amlinellodd yr ymgynghoriad ar y dewis a ffafrir y bydd y Fframwaith yn rhyngweithio â **Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru,** y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi cyn diwedd 2019, ar faterion sy'n pontio'r cyfundrefnau cynllunio morol-daearol.

### Lleoedd egnïol a chymdeithasol

Mae'r thema hon yn amlinellu y bydd y Fframwaith yn cynnwys polisïau sy'n cysylltu datblygiadau tai strategol â seilwaith ffisegol a chymdeithasol, gan gynnwys seilwaith teithio llesol (cerdded a beicio), a'i gysylltu ag ardaloedd cyflogaeth, gyda'r nod o ddarparu cyfleusterau gwell a swyddi mwy lleol. Noda hefyd y bydd polisïau 'yn nodi rhagamcaniad tai a phoblogaeth ar sail polisi cenedlaethol, a fydd yn cynnwys ystod Cymru gyfan o ffigurau tai'.

Rhanbarthau Cymru

O dan y thema hon, nodwyd yn y dewis a ffafrir y bydd y Fframwaith yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer tri rhanbarth: gogledd Cymru, canolbarth a de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru, a gall y polisi gynnwys gofyniad i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Awgrymir yn y ddogfen hefyd y gallai'r Fframwaith 'nodi rhagfynegiadau tai a phoblogaeth ar sail polisi rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth, a fydd yn cynnwys ystod ranbarthol o dai ar gyfer cyfnod y cynllun.'

Mae'r defnydd o ffigurau tai Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol wedi bod yn ddadleuol yn y gorffennol, ac ymgymerodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad ag **ymchwiliad byr i'r mater yn 2013**.

## Dewisiadau amgen



Cyn penderfynu ar Leoedd Cynaliadwy fel y dewis a ffafrir, profodd Llywodraeth Cymru bedwar dewis gwahanol. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y dewis a ffafrir yn fodel hybrid sy'n seiliedig ar gryfderau cymharol y pedwar dewis amgen. Y dewisiadau amgen oedd:

- **canolbwyntio ar dwf yn yr ardaloedd marchnad cryfaf** yng Nghymru, gan ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i ategu hyn;
- **dosbarthu twf a seilwaith ledled Cymru** a chanolbwyntio ar gefnogi ardaloedd sydd â'r angen mwyaf, lle mae marchnadoedd yn wannach;
- **cyflawni amcanion datgarboneiddio a newid hinsawdd** drwy wneud y materion hyn yn ystyriaeth sylfaenol mewn polisïau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; a hefyd
- **canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** drwy bwysleisio amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth fel ffyrdd o ddatblygu swyddi o ansawdd da ledled Cymru.

Cynhwyswyd dewis meincnod o beidio â llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd.





# Gwaith craffu'r pwyllgor ar yr dewis a ffafrir

Bu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn craffu ar y dewis a ffafrir ar gyfer y Fframwaith ym mis Mehefin 2018. Roedd hyn yn cynnwys **sesiwn tystiolaeth gyhoeddus gydag arbenigwyr cynllunio** a gweithdy i randdeiliaid.

Yn dilyn y gwaith hwn, **ysgrifennodd y Pwyllgor** (PDF, 175KB) at Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, ym mis Awst 2018, yn ceisio eglurhad ar amrywiaeth o faterion. **Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet** (PDF, 278KB) ar y pryd yn ystod y mis dilynol. Roedd yr ohebiaeth yn ymdrin â'r themâu a ganlyn:

## Rhyngweithio â pholisïau a chynlluniau allweddol eraill

Nid oedd y Pwyllgor yn deall yn iawn sut roedd y dewis a ffafrir ar gyfer y Fframwaith yn rhyngweithio â pholisïau a chynlluniau allweddol eraill, gan gynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru - Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd gan ddweud y byddai Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ddiwygio ymhellach unwaith y byddai'r Fframwaith terfynol yn cael ei gyhoeddi yn 2020.
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (wrthi'n cael ei ddatblygu) - Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd ei bod yn gyfrifol am y Fframwaith a'r cynllun morol, a bod rhaglen gyswllt ffurfiol ac anffurfiol rhwng swyddogion sy'n gweithio ar y ddwy ddogfen. Dywedodd hefyd fod yr arfarniadau cynaliadwyedd ar gyfer y ddwy ddogfen yn asesu sut mae pob un yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau integredig.

## Comisiwn Seilwaith

Nid oedd y Pwyllgor chwaith yn deall yn iawn beth oedd y berthynas rhwng y Fframwaith a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd y byddai ei swyddogion yn 'sefydlu mecanweithiau i gydweithio' gyda'r Comisiwn Seilwaith.

Pwrpas y Comisiwn Seilwaith yw darparu cyngor diduedd arbenigol i Lywodraeth Cymru ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol hirdymor. Bydd hefyd yn trafod sut mae'r anghenion hyn yn rhyngweithio â seilwaith cymdeithasol, fel ysgolion ac ysbytai. Nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James, **ym mis Medi 2019 ei bod yn bwriadu ehangu cylch gwaith y Comisiwn Seilwaith** (PDF, 282KB) i gynnwys dulliau adeiladu, modelau cyllid a'r

seilwaith strategol sy'n ofynnol i ategu'r gwaith o gyflenwi tai,

Disgwylir adroddiad blynyddol y Comisiwn Seilwaith ym mis Tachwedd a'i 'adroddiad Cyflwr y Genedl' cyntaf cyn diwedd 2021.

Noder bod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu i'r Fframwaith ategu **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**.

## Creu Lleoedd

Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cysyniad o greu lleoedd, ond mynegodd rai amheuon ac awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar bobl a chymunedau o fewn y diffiniad, gan gynnwys canolbwyntio ar gartrefi a swyddi. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd, er cysondeb, y byddai'r Fframwaith yn defnyddio'r un diffiniad o greu lleoedd â Pholisi Cynllunio Cymru.

## Tri Rhanbarth

Roedd y Pwyllgor eisiau deall y rhesymeg y tu ôl i ddewis y tri rhanbarth - gogledd Cymru, canolbarth a de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru - yn enwedig o gofio bod **ymchwil a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru** yn argymell pedwar rhanbarth.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd gan ddweud bod y tri rhanbarth yn cyfateb i'r rhai yng **Nghynllun Gweithredu ar yr Economi** Llywodraeth Cymru i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig gan y llywodraeth, ond y byddai'n myfyrio ymhellach ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mater hwn. Dywedodd hefyd, er bod tri rhanbarth, y gallai fod yn briodol cael mwy nag un Cynllun Datblygu Strategol neu gyfuniad o Gynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd o fewn rhanbarth.

## Cynlluniau Datblygu Strategol

Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu cyflwyno, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar yr hyn mae'n rhaid i'r Fframwaith ei gwmpasu. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd mai'r dewis roedd hi'n ei ffafrio oedd i Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn wirfoddol. **Ysgrifennodd at Awdurdodau Cynllunio Lleol ym mis Rhagfyr 2017** gan eu hannog i weithio gyda'i gilydd ar Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.





**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

## Ffigurau tai

Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu y gellid dehongli'r 'ystod o niferoedd tai' a awgrymir yn y dewis a ffafrir fel targed, a bod yr iaith a ddefnyddir yn y ddogfen yn awgrymu ymagwedd o'r brig i lawr yn hytrach nag o'r gwaelod i fyny. Roedd y Pwyllgor wedi clywed gan randdeiliaid yr oedd yn well ganddynt weld ffigurau tai yn seiliedig ar angen lleol ac wedi eu crynhoi'n ffigurau rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai'r ffigurau hyn hefyd gynnwys gwahanol fathau o dai i adlewyrchu anghenion tai lleol, fel tai cymdeithasol a fforddiadwy.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd gan ddweud bod ei swyddogion yn gweithio ar broses newydd ar gyfer sefydlu'r ffigurau tai ar gyfer y Fframwaith, gyda'r bwriad o ddarparu ystod o rifau ar ystod o lefelau mewn ffordd gyson. Ychwanegodd y byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw nifer sy'n deillio'n lleol a allai lywio'r broses Cynlluniau Datblygu Strategol neu Gynlluniau Datblygu Lleol.

# Fframwaith drafft

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith drafft ar gyfer ymgynghoriad ar 7 Awst 2019. Roedd wedi bwriadu lansio'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, ond bu **oedi oherwydd isetholiad Brycheiniog a Sir Faesyfed San Steffan** a ddigwyddodd ar 1 Awst. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg am 14 wythnos ac yn cau ar 15 Tachwedd 2019.

Cyhoeddwyd **naw dogfen wahanol** fel rhan o'r ymgynghoriad:

- Drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (PDF, 7MB)
    - Fersiwn hawdd ei ddeall (PDF, 39MB)
    - Crynodeb pobl ifanc (PDF, 4MB)
    - **Dogfen ymgynghori (PDF, 280KB).** Mae'r ddogfen ymgynghori'n cysylltu â nifer o strategaethau, papurau ymchwil a chyhoeddiadau eraill sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith.
- Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (PDF, 5MB).
    - Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig: crynodeb annhechnegol (PDF, 556KB)
- Adroddiad Asesu Rheoliadau Cynefinoedd (PDF, 16MB)
    - **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Atodiad A: Ein Tybiaethau a Ffordd o Weithio (PDF, 12MB)**
    - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Atodiad B: goblygiadau i rwydwaith Natura 2000 o feysydd blaenoriaeth datblygu ynni solar a gwynt ledled Cymru (PDF, 16MB)

Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad o'r **Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd** ym mis Gorffennaf 2019.

## Dogfen Fframwaith drafft

Mae pum pennod i'r Fframwaith drafft:

- Mae Pennod 1 yn nodi pwrpas y Fframwaith ac yn disgrifio sut mae'n cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru;
- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf;





**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

- Mae Pennod 3 yn rhestru 'canlyniadau'r Fframwaith', sef uchelgeisiau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer sut le fydd Cymru ymhen 20 mlynedd;
- Mae Pennod 4 yn nodi strategaeth ofodol sy'n cynnwys fframwaith polisi ar gyfer materion Cymru gyfan sydd o bwys cenedlaethol a 'diagram strategol' (h.y. map lefel uchel); ac
- Mae Pennod 5 yn pennu strategaeth ar gyfer materion o bwys cenedlaethol yn y tri rhanbarth - gogledd Cymru, canolbarth a de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru.

Mae'r Fframwaith drafft yn cynnwys 33 o bolisïau, a nodir ym Mhenodau 4 a 5. Mae grid ar ddiwedd y ddogfen yn dangos y berthynas rhwng polisïau'r Fframwaith a chanlyniadau'r Fframwaith maent yn ceisio eu cyflawni.

Disgrifir canlyniadau a pholisïau'r Fframwaith yn fanylach isod, gydag enghreifftiau eglurhaol o agweddau gofodol polisïau ehangach yn gysylltiedig â'r canlyniadau.

### Pennod 3 – Canlyniadau'r Fframwaith

Mae 11 o ganlyniadau Fframwaith ac maent yn seiliedig ar yr 'egwyddorion cynllunio cenedlaethol' a'r 'canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol' a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Y rhain yw 'Cymru lle mae pobl yn byw':

1. a gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach;
2. mewn lleoedd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau;
3. mewn rhanbarthau unigryw sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol trwy dwf cynaliadwy;
4. mewn lleoedd ag Iaith Gymraeg lewyrchus;
5. a gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ar gyfer twf cynaliadwy;
6. mewn lleoedd lle mae ffyniant, arloesi a diwylliant yn cael eu hyrwyddo;
7. mewn lleoedd lle mae teithio'n gynaliadwy;
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf;
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd;
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig; ac
11. mewn lleoedd sydd wedi eu datgarboneiddio.

## Pennod 4 - Strategaeth Ofodol (polisïau 1-15)

Cyfeirir at dair 'Ardal Twf Cenedlaethol' yn y Strategaeth Ofodol, a nodir y bydd cyflogaeth a thwf mewn tai newydd ar raddfa fawr yn digwydd yn bennaf yn yr ardaloedd hyn. Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw:

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd;
- Bae Abertawe a Llanelli; a
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

Nodir 'Ardaloedd Twf Rhanbarthol' llai hefyd, yn yr un modd â chysylltiadau rhyng-drefol, rhanbarthol a rhyngwladol.

Mae'r Strategaeth Ofodol hefyd yn cynnwys polisïau ar gyfer materion o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, tai fforddiadwy, cyfathrebu symudol, rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Crynhoir y polisïau isod.


O safbwynt trafnidiaeth, nododd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, **ei 'egwyddorion ar gyfer cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus'** ym mis Medi 2019. Dywedodd y Gweinidog: "rwy'n disgwyl i'r egwyddorion hyn gael eu hystyried pan fo cynlluniau seilwaith yn cael eu cynllunio a'r gwasanaethau'n cael eu caffael". Gan ganolbwyntio ar gludiant teithwyr torfol, dywedodd fod rhagor o waith yn cael ei wneud ar 'drafnidiaeth breifat, cludo nwyddau a dulliau eraill'. Roedd y datganiad yn nodi egwyddorion ar lefel 'strategol', 'ranbarthol' a 'threfol/lleol'.  Bydd yr egwyddorion yn rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Cyfeirir at y Strategaeth Drafnidiaeth yn y Fframwaith drafft fel un o'r strategaethau sy'n llywio datblygiad y Fframwaith, sy'n awgrymu perthynas rhwng yr egwyddorion trafnidiaeth gyhoeddus a'r ymagwedd ofodol a nodir yn y Fframwaith.

Tudalen y pecyn 26





### Ffigur 1: Strategaeth Ofodol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft




Ffynhonnell: **Fframwaith drafft** (tudalen 25)

**Polisi 1 - Twf trefol cynaliadwy -** Dylai twf trefol gefnogi trefi a dinasoedd sy'n gryno ac wedi eu gogwyddo o gwmpas canolfannau trefol, trafnidiaeth gyhoeddus integredig a rhwydweithiau teithio llesol.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn, **gwella trafnidiaeth gyhoeddus**, rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2019, a disgwylir y bydd Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn 2020. Tra bod y Papur Gwyn wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer gwasanaethau bysiau, tacsis a cherbydau hurio preifat a strwythur cynllunio trafnidiaeth llywodraeth leol ranbarthol, awgrymir yn **y datganiad ysgrifenedig** sy'n cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad y bydd y Bil yn canolbwyntio'n fwy penodol ar wasanaethau bysiau.

Y tu hwnt i gynigion deddfwriaethol, mae gan gorff cyflenwi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, **gylch gwaith** i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus integredig, gan gynnwys:

- cyflwyno gwasanaethau rheilffyrdd o dan y fasnachfraint newydd a datblygu Metro De Cymru;
- cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hadolygiad o wasanaethau bysiau a datblygu 'datblygiadau sy'n canolbwyntio ar dramwy' o gwmpas gorsafoedd rheilffordd;
- gwasanaethau tocynnau integredig ac ymateb i'r galw;
- teithio llesol; a
- darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Yn ei adroddiad ym mis Mai 2019 ar **Ddatblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol** (PDF 687), nododd **Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau** y Cynulliad 'rôl bwysig i Trafnidiaeth Cymru wrth helpu i gydlynu'r gwaith o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yng Nghymru i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth integredig'.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu achos busnes ar gyfer datblygu rôl Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol.

Yn flaenorol, ym mis Mehefin 2018, **amlygodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau** bwysigrwydd y cysylltiad rhwng polisi cynllunio a chefnogaeth ar gyfer teithio llesol. Ym mis Mai 2019, awgrymodd y Dirprwy Weinidog Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters, fod y **Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig yn 'gam mawr ymlaen'** o ran cryfhau canllawiau cynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol i helpu i ategu 'amgylchedd teithio llesol'.

Tudalen y pecyn 27



**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

**Polisi 2 - Cefnogi canolfannau trefol -** Dylai cynigion ar gyfer cyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus newydd ar raddfa sylweddol gael eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid eu cymeradwyo mewn mannau eraill.

**Polisi 3 - Buddsoddiad cyhoeddus, adeiladau cyhoeddus a thir sy'n eiddo cyhoeddus -** Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod datblygiadau ar raddfa sylweddol ar dir sy'n eiddo cyhoeddus wedi eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd sy'n hygyrch drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol nodi tir dan berchnogaeth gyhoeddus sy'n briodol i'w ddatblygu.

**Polisi 4 - Cefnogi cymunedau gwledig** - Y ffordd orau o gynllunio ardaloedd gwledig yw Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Dylai'r twf mewn trefi a phentrefi gwledig fod yn briodol ac yn gymesur.

**Polisi 5 - Cyflwyno cartrefi fforddiadwy** - Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy drwy sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol:

> ...ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, dylent nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac ystyried pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Mae'r Fframwaith drafft yn defnyddio cyhoeddiad **Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru fesul deiliadaeth (yn seiliedig ar 2018)** Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys nifer o wahanol senarios demograffig. Mae'r Fframwaith drafft yn defnyddio'r amcangyfrif canolog sy'n awgrymu:

- bod angen 114,000 o gartrefi ychwanegol ledled Cymru erbyn 2038;
- yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19 i 2022/23), bydd angen 8.300 cartref newydd ar gyfartaledd bob blwyddyn, gydag angen am 57% ohonynt yn ne-ddwyrain Cymru, 24% yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru a 19% yng ngogledd Cymru; a
- dylai fforddiadwyedd fod yn ganolbwynt allweddol, gyda 47% o gartrefi newydd yn ystod 2018/19 i 2022/23 angen bod yn dai fforddiadwy (tai cymdeithasol neu rent canolradd). Mae hyn yn cynrychioli 3,900 o dai fforddiadwy ar gyfartaledd a 4,400 o gartrefi marchnad yn flynyddol dros y cyfnod o bum mlynedd.

Mae'n bwysig nodi bod y cyhoeddiad ynghylch amcangyfrifon o'r angen am dai yn datgan bod y ffigurau hyn yn dod gyda'r cafeat **na ddylid eu defnyddio fel targedau tai**, ac yn hytrach y dylent 'fod yn sail ar gyfer trafodaeth ar benderfyniadau polisi'.

Sylwer hefyd mai ffigur sengl yw'r amcangyfrif canolog, yn hytrach na'r ystod o niferoedd y cyfeirir atynt yn y dewis a ffafrir o ran y Fframwaith ac yng ngohebiaeth ddilynol Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Dadansoddir y ffigurau tai yn ôl y tri rhanbarth yn ddiweddarach yn y Fframwaith drafft, ac fe'u crynhoir yn y tabl isod. Nodir yn y Fframwaith drafft bod 'yr amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio gofynion tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt' (tudalennau 51, 58 a 66).

**Tabl 1: Ffigurau tai rhanbarthol y Fframwaith drafft**

| Rhanbarth y Fframwaith drafft | Cartrefi ychwanegol sydd eu hangen erbyn 2038 | Canran y cartrefi ychwanegol yn y pum mlynedd gyntaf (2018-19 i 2022-23) a ddylai fod yn gartrefi fforddiadwy |
|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 19,400 | 51% |
| **Canolbarth a de-orllewin Cymru** | 23,400 | 44% |
| **De Cymru** | 71.200 | 48% |

Ffynhonnell: **Fframwaith drafft** (tudalennau 51, 58 a 66), yn seiliedig ar **Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru fesul deiliadaeth (yn seiliedig ar 2018)** Llywodraeth Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru darged ar wahân i ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod y Pumed Cynulliad. Mae'r targed hwnnw'n cynnwys 6,000 o gartrefi a ddarperir drwy gynllun Cymorth i Brynu Cymru, er na fyddai'r eiddo hynny yn gyffredinol yn cwrdd â'r diffiniad o dai fforddiadwy a amlinellir yn **Nodyn Cyngor Technegol 2: cynllunio a thai fforddiadwy.**

Comisiynwyd yr **Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy: adroddiad** gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2019. Gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer camau gweithredu i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a derbyniodd Llywodraeth Cymru pob un ac eithrio un.

Tudalen y pecyn 28



**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

**Polisi 6 - Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Symudol** - Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi 'Parthau Gweithredu Symudol' sy'n canolbwyntio ar ardaloedd sydd heb lawer o ddarpariaeth neu ddim darpariaeth o gwbl, a lle mae galw am seilwaith newydd. Yn y parthau hyn, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol a gweithredwyr telathrebu weithio gyda'i gilydd i gynyddu darpariaeth symudol drwy nodi lleoliadau ar gyfer offer a seilwaith newydd. Rhoddir cryn bwyslais ar yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth, gyda rhagdybiaeth o blaid seilwaith telathrebu symudol newydd, ar yr amod nad oes unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun gweithredu ffonau symudol** ym mis Hydref 2017. Nodir yn y cynllun sut bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ysgogiadau datganoledig sydd ar gael iddi – fel cynllunio ac ardrethi busnes - yn ogystal â gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom (y rheolydd cyfathrebu) i wella darpariaeth symudol.

**Polisi 7 - Cerbydau allyriadau isel iawn** - Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac eraill i gynllunio ar gyfer cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan a'i weithredu, gan gynnwys creu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cyflym ledled Cymru.

Nodir yn y Fframwaith drafft hefyd y **bydd Llywodraeth Cymru yn llunio strategaeth ar gyfer seilwaith gwefru trydan**, ond nid yw'n nodi amserlen ar gyfer gwneud hynny.

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau mewn tystiolaeth i'w **ymchwiliad i seilwaith gwefru cerbydau trydan** ei bod yn bwriadu defnyddio Trafnidiaeth Cymru i gaffael seilwaith gwefru. Byddai'r broses hon yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn pennu'r gyllideb a'r prif amcanion, ac yn gwahodd cynigion i gyflawni.

**Polisi 8 - Fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn wydn** - Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag eraill i nodi:

- ardaloedd y gellid eu diogelu fel rhwydweithiau ecolegol am y gallent fod yn bwysig o ran addasu i newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill, o ran adfer neu greu cynefinoedd, neu sy'n darparu gwasanaethau ecosystemau; a
- chyfleoedd lle gellid manteisio i'r eithaf ar seilwaith gwyrdd strategol fel rhan o gynigion datblygu.

Dylai'r safleoedd hyn gael eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ac, ym mhob achos, dylai cynigion datblygu ddangos camau gweithredu tuag at wella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn wydn.

Nodir hefyd yn y Fframwaith drafft y bydd meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodwyd mewn Datganiadau Ardal yn ystyriaethau cynllunio perthnasol, a dylai Cynlluniau Datblygu Strategol/Cynlluniau Datblygu Lleol nodi polisïau i ddiogelu'r ardaloedd hyn.

**Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn paratoi'r** rownd gyntaf o Ddatganiadau Ardal. Mae angen Datganiadau Ardal yn unol â *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* ac maent yn adroddiadau ar sail lleoedd a fydd yn nodi risgiau, cyfleoedd a blaenoriaethau sy'n ymwneud â **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**. Eu bwriad yw hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ym mhob maes a byddant yn nodi cyrff cyhoeddus penodol wrth fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â rheoli adnoddau naturiol. Disgwylir i'r Datganiadau Ardal gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2020.



**Polisi 9 - Coedwig genedlaethol** - Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi safleoedd a mecanweithiau i ddatblygu coedwig genedlaethol, a bydd yn ategu camau gweithredu i ddiogelu lleoliadau arfaethedig.

Nodir yn y Fframwaith drafft bod coedwig genedlaethol yn debygol o gael ei gwasgaru ar draws nifer o leoliadau, a bydd yn helpu i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o blannu o leiaf 2,000 hectar o goetir newydd yn flynyddol o 2020, fel y nodir yn ei **strategaeth Coetiroedd i Gymru.**

***Polisïau ynni a gwresogi (Polisïau 10-15)***

Nodir pum polisi yn y Fframwaith drafft sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy a Rhwydweithiau Gwresogi Ardaloedd. Nodir bod gan Lywodraeth Cymru 'ymagwedd goleuadau traffig' at bolisi ar brosiectau ynni adnewyddadwy gwynt a solar ar raddfa fawr:

- **Coch**: Nid yw datblygu ynni gwynt a solar ar raddfa fawr yn briodol o fewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).
- **Ambr**: Ardaloedd nad ydynt o fewn yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer ynni solar a gwynt. Ni fydd cefnogaeth benodol gan Lywodraeth Cymru i'r rhain, a bydd cynigion yn cael eu penderfynu ar sail eu rhinweddau unigol.





- **Gwyrdd**: Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer ynni solar a gwynt lle mae rhagdybiaeth o blaid datblygu a lle derbynnir yr egwyddor o newid tirwedd.

Mewn '**adolygiad strategol o dirwedd ac effaith weledol**', a baratowyd ar ran Llywodraeth Cymru, nodwyd yr Ardaloedd Blaenoriaeth fel y lleoliadau mwyaf priodol i ddygymod â newid tirwedd.

Nodir yn y Fframwaith drafft y bydd dod â màs critigol o ddatblygiadau adnewyddadwy at ei gilydd yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth yn datblygu'r achos dros seilwaith grid newydd wedi ei atgyfnerthu.

**Polisi 10 - Ynni gwynt a solar mewn Ardaloedd Blaenoriaeth** - Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiadau ynni gwynt a solar ar raddfa fawr yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth y mae wedi eu nodi. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ar gyfer y cynlluniau hyn a 'derbyniad cysylltiedig o newid tirwedd'.

Wrth bennu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu ynni gwynt a solar ar raddfa fawr mewn Ardaloedd Blaenoriaeth, priodolir gwerth sylweddol i gyfraniad y cynnig at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru a chyrraedd targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy. Rhaid i geisiadau cynllunio hefyd ddangos sut gwnaed y mwyaf o fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol a sut y **lleihawyd** effeithiau andwyol ar y canlynol:

- tirwedd ac effaith weledol;
- effeithiau cronnus;
- lleoliadau Parciau Cenedlaethol ac AHNE;
- goruchafiaeth weledol, cryndod cysgodol, effeithiau golau wedi ei adlewyrchu neu sŵn;
- aflonyddwch electromagnetig i'r systemau cyfathrebu presennol; a'r
- asedau gwarchodedig a ganlyn a nodwyd:
  - asedau archeolegol, pensaernïol neu hanesyddol;
  - safleoedd cadwraeth natur a rhywogaethau; ac
  - adnoddau naturiol neu warchodfeydd.

Mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* wedi ymrwymo Llywodraeth Cymru i ostwng allyriadau 80% erbyn 2050. Ym mis Mehefin 2019, nododd y Gweinidog Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **gynllun Llywodraeth Cymru** i gyflwyno rheoliadau pellach, gan ymrwymo Cymru i ostwng allyriadau 95% erbyn 2050, gydag uchelgais i gyflawni allyriadau sero net. Yn **Cymru carbon isel,** noda

Llywodraeth Cymru amrywiaeth o bolisïau a chynigion sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, gan gynnwys:

- cyflawni targedau ynni adnewyddadwy;
    - Cynhyrchu 70% o ddefnydd trydan Cymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;
    - 1GW o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru i fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030;
    - Prosiectau ynni adnewyddadwy i gael rhywfaint o berchnogaeth leol o leiaf o 2020 ymlaen.
- datblygu llwybrau i'r farchnad ar gyfer technolegau adnewyddadwy; ac
- ymchwilio i'r potensial ar gyfer buddsoddi a dulliau newydd o gynhyrchu ynni.

Nodir yn y Fframwaith drafft nad yw'r holl ardal yn yr Ardaloedd Blaenoriaeth yn addas ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy; dylid ystyried effeithiau cronnus a dylid eithrio safleoedd Natura 2000.

Tudalen y pecyn 30

Mae **Natura 2000** yn rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig ledled yr Undeb Ewropeaidd. Ei nod yw sicrhau goroesiad hirdymor rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf gwerthfawr a'r rhai sydd fwyaf dan fygythiad yn Ewrop, a restrir o dan **Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd a Chyfarwyddeb Adar yr Undeb Ewropeaidd.**

Nodir yn y Fframwaith drafft y **cynhyrchir canllawiau ar ddatblygu cynlluniau ynni gwynt ac ynni'r haul ar y lan mewn Ardaloedd Blaenoriaeth**. Ni ddarperir amserlen ar gyfer datblygu'r canllaw hwn.

Bydd gweithredu datblygiadau yn y Meysydd Blaenoriaeth yn cael ei fonitro yn unol â thargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

**Polisi 11 - Ynni gwynt a solar y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth** - Y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth, rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni gwynt a solar ar raddfa fawr ddangos sut mae buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol wedi eu cynyddu i'r eithaf ac **nad oes effeithiau andwyol annerbyniol** ar yr un meini prawf a restrir ym Mholisi 10.

**Polisi 12 - Ynni gwynt a solar mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol** - Nid yw datblygiadau ynni gwynt a solar ar raddfa fawr yn dderbyniol yn yr ardaloedd hyn.




**Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:** Briff Ymchwil

**Polisi 13 - Datblygiadau ynni adnewyddadwy eraill** - Bydd cynigion ar gyfer cynlluniau arall i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn cael eu penderfynu yn unol â'r meini prawf a nodir ym Mholisi 11.

Nodir yn y Fframwaith drafft bod ffynonellau ynni adnewyddadwy heblaw gwynt a solar yn cael eu cefnogi mewn egwyddor a bod **Llywodraeth Cymru yn paratoi 'Atlas Ynni' i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiectau adnewyddadwy**. Ni ddarperir amserlen ar gyfer datblygu'r Atlas Ynni.

**Ffigur 2: Ynni Gwynt a Solar mewn Ardaloedd Blaenoriaeth yn y Fframwaith Drafft**




Ffynhonnell: **Fframwaith drafft** (tudalen 42)





**Polisi 14 – Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal**
O fewn Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal a sicrhau eu bod wedi eu hintegreiddio o fewn datblygiadau newydd a phresennol.

Mae **Rhwydweithiau Gwresogi Ardal** yn ddull o gyflenwi gwres a dŵr poeth i sawl adeilad o ffynhonnell wres ganolog. Nodir yn y Fframwaith drafft y gallant fod y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwres carbon isel, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

**Polisi 15 - Uwchgynllunio ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal** - Dylai datblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fawr, lle bo hynny'n ymarferol, gael Rhwydwaith Gwresogi Ardal. Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath baratoi Uwchgynllun Ynni i sefydlu ai Rhwydwaith Gwresogi Ardal yw'r dewis cyflenwi ynni mwyaf effeithiol a, lle bo hynny'n ymarferol, ei weithredu.

Nodir yn y Fframwaith drafft y dylai cynigion, ar y lleiaf, ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg o 100 annedd neu ragor ystyried y potensial ar gyfer Rhwydwaith Gwresogi Ardal, er bod potensial iddynt fod yn is na'r trothwy hwn.

## Pennod 5 - Y rhanbarthau (polisïau 16-33)

**Polisi 16 - Polisïau strategol ar gyfer cynllunio rhanbarthol** - Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu cyflwyno ym mhob un o'r tri rhanbarth. Ar gyfer y rhanbarth perthnasol, dylai Cynllun Datblygu Strategol sefydlu:

- strategaeth ofodol;
- hierarchaeth aneddiadau;
- y ddarpariaeth dai a'r gofyniad tai;
- anghenion y gymuned sipsiwn a theithwyr;
- y ddarpariaeth gyflogaeth;
- yr ardaloedd gofodol ar gyfer tai strategol a thwf cyflogaeth, ynni adnewyddadwy ac nodi lleiniau gleision, coridorau gwyrdd a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol;
- lleoliad gwasanaethau allweddol, trafnidiaeth a seilwaith cysylltedd;
- fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac asedau diwylliannol yn gynaliadwy;

- rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i amddiffyn neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn; a
- fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer echdynnu mwynau a'r economi gylchol, gan gynnwys trin a gwaredu gwastraff.
- Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol hefyd lunio a chael eu llunio gan strategaethau rhanbarthol eraill fel cynlluniau datblygu economaidd rhanbarthol Llywodraeth Cymru a'r bargeinion dinesig a bargeinion twf: **Bargen Twf Gogledd Cymru; Bargen Ddinesig Bae Abertawe**; a **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.**
